SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

The Rt Hon Priti Patel MP
Home Secretary
Home Office
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

Ein Cyf/Our Ref: AJ/ACH/

18 Mai 2021/May 2021

Annwyl Ysgrifennydd Cartref

**Plismona yn y Pandemig-Ymateb yr heddlu i'r pandemig coronafeirws yn ystod 2020.**

Yn unol â'r statud, ysgrifennaf atoch gyda fy sylwadau ar Adroddiad Arolygaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub (HMICFRS) 'Plismona yn y Pandemig – Ymateb yr heddlu i'r Pandemig Coronafeirws yn ystod 2020'.

Nodaf yr argymhellion yn yr adroddiad a rhoddir ein hymatebion i bob argymhelliad ar ddiwedd yr ateb hwn.

Rwyf yn falch bod yr adroddiad yn adlewyrchu'r ymrwymiad, yr ymroddiad a'r hyblygrwydd a ddangoswyd gan swyddogion yr heddlu a staff yr heddlu sy'n gweithio dan amgylchiadau eithriadol o anodd.

Drwy gydol y pandemig, dull Heddlu Gogledd Cymru oedd ymgysylltu â'n cymunedau a defnyddio mesurau gorfodi dim ond ar gyfer achosion clir o dorri deddfwriaeth yn ddiamwys a chredaf fod y cydbwysedd yn iawn gennym.

Fel y dywedwch yn gywir, mynegodd llawer o heddluoedd rwystredigaeth yn aml ynglŷn â'r diffyg rhybudd a roddwyd iddynt am rai newidiadau yn y gyfraith a'r canllawiau a'r anawsterau o ran darparu arweiniad gweithredol amserol a chlir i swyddogion rheng flaen.

Dear Home Secretary,

**'Policing in the Pandemic -The police response to the coronavirus pandemic during 2020'.**

As required by statute, I am writing to you with my comments on Her Majesty's Inspectorate of Constabulary, Fire and Rescue Service Report 'Policing in the Pandemic -The police response to the coronavirus pandemic during 2020'.

I note the recommendations within the report and our responses to each recommendation are given at the end of this reply.

I am pleased that the report reflects the commitment, dedication and adaptability shown by police officers and police staff working in exceptionally difficult circumstances.

Throughout the pandemic North Wales Police's approach has always been to engage with our communities and use enforcement measures only for clear unequivocal breaches of legislation and I think we have the balance right.

As you rightly point out many forces expressed frequent frustration at the lack of notice they were given about some changes in the law and guidance and the difficulties in providing timely and clear operational guidance to frontline officers.

Glan y Don, Bae Colwyn LL29 8AW
Ffôn / Tel: 01492 805486
Ebost / Email: OPCC@nthwales.pnn.police.uk
Glan y Don, Colwyn Bay LL29 8AW
Ffacs / Fax: 01492 805489

Yn ffodus, nid dyma'r sefyllfa yng Nghymru gan fod uned gyswllt yr heddlu (PLU) yn darparu'r cyswllt strategol rhwng y pedwar heddlu yng Nghymru, y pedwar comisiynydd heddlu a throsedd a Llywodraeth Cymru ac fe nodwyd yn eich adroddiad "Yn gyffredinol, roedd y berthynas sefydledig rhwng heddluoedd Cymru a Llywodraeth Cymru yn gydweithredol ac yn effeithiol."

Fortunately, this was not the situation in Wales because the police liaison unit (PLU) provided the strategic link between the four police forces in Wales, the four police and crime commissioners and the Welsh Government and your reported noted that ''Overall, the well-established relationships between Welsh forces and the Welsh Government were collaborative and effective."

Roedd Llywodraeth ddatganoledig Cymru yn golygu bod heddluoedd Cymru yn gyffredinol yn teimlo yr ymgynghorwyd yn briodol â hwy ar ddeddfwriaeth ddrafft a bod datganoli cyfrifoldeb am iechyd yn ffactor yn effeithiolrwydd y cydberthnasau hyn.

The devolved Welsh Government meant that Welsh forces generally felt properly consulted on draft legislation and the devolution of responsibility for health was a factor in the effectiveness of these relationships.

Ystyriwyd effaith y pandemig ar y system cyfiawnder troseddol ehangach yn yr adroddiad, yn benodol cau llysoedd a'r effaith a gafodd hyn ar blismona.

The impact of the pandemic on the wider criminal justice system was considered within the report, specifically court closures and the impact this had on policing.

Nodoch:

You noted that:

*"Yn wyneb cau llysoedd, gweithredodd heddluoedd a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn gyflym i sefydlu, neu ymestyn trefniadau llys rhithwir presennol. Roedd y rhain yn caniatáu i wrandawiadau remand ddigwydd o fewn dalfeydd yr heddlu... Yng Nghymru, dim ond (ac yn anaml) y defnyddiwyd llysoedd rhithwir ar gyfer carcharorion gyda choronafeirws, neu yr amheuir bod ganddynt, coronafeirws."* Ni chyfeiriwyd at y camau arloesol a gymerwyd yng Nghymru i sicrhau bod llysoedd yn cael eu hailagor yn ystod y pandemig yn gyflym.

*"Faced with court closures, forces and HM Courts & Tribunals Service acted quickly to set up, or extend existing, virtual court arrangements. These allowed remand hearings to take place from within police custody… In Wales, virtual courts were used only (and rarely) for detainees with, or suspected of having, coronavirus."* There was no reference to the pioneering steps taken in Wales to swiftly ensure courts were reopened during the pandemic.

Mae'r deuddeg mis diwethaf wedi bod yn argyfwng fel dim arall, hyd yn oed i wasanaeth sy'n cael ei baratoi i ymateb i'r digwyddiadau mwyaf difrifol.

The last twelve months has proved to be a crisis like no other, even for a service which is primed to respond to the most serious of incidents.

Nodoch yn gywir fod hyn wedi cael effaith ar les swyddogion yr heddlu a staff ac yn arbennig;

You rightly noted that this had an impact on the wellbeing of police officers and staff and particularly;

*"I rai aelodau o'r gweithlu, mae eu rôl o ddydd i ddydd yn eu rhoi mewn mwy o berygl o ddal y feirws.*

*''For some members of the workforce, their day-to-day role puts them at higher risk of contracting the virus. This*

*Gall hyn, er enghraifft, fod oherwydd i rywrai boeri arnynt wrth ddod yn agos at aelod o'r cyhoedd y maent yn eu rhwystro neu'n ei arestio'.*

*can be, for example, from being spat at during close contact with a member of the public they are detaining or arresting''.*

Mae'n anffodus felly; nad oedd y llywodraeth yn cefnogi swyddogion rheng flaen drwy ystyried eu bod yn flaenoriaeth ar gyfer brechu. Fodd bynnag, diolch i waith diflino Prif Gwnstabl Cynorthwyol Nigel Harrison a Chwnstabl Heddlu Andy Collis, llwyddodd Heddlu Gogledd Cymru ddefnyddio brechlynnau dros ben yn effeithiol iawn ar draws y sefydliad.

It is unfortunate then; the government did not support frontline officers by considering them to be a priority for vaccination. However, thanks to the tireless work of Assistant Chief Constable Nigel Harrison and Police Constable Andy Collis, North Wales Police managed to utilise spare vaccines to great effect across the organisation.

Buom yn ymgyrchu'n galed drosto, a chyda chymorth llawer gan gynnwys Ffederasiwn yr Heddlu, Unsain a phrif swyddogion mae hyn wedi bod yn amhrisiadwy gyda dros 1000 o'n staff wedi'u brechu a fyddai wedi bod yn aros fel arall.

We campaigned hard for it, and with the help of many including the Police Federation, Unison and chief officers this has been invaluable with over 1000 members of our staff vaccinated that would otherwise have been waiting.

Mae yna hefyd bobl allweddol, sy'n gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, y gwnaeth eu perthynas dda â Heddlu Gogledd Cymru gyfraniadau sylweddol i lwyddiant y rhaglen frechu sbâr ac rydym yn hynod ddiolchgar iddynt.

There are also key people, who work for the Betsi Cadwalader University Health Board, whose good relationships with North Wales Police made significant contributions to the success of the spare vaccine programme and we are hugely thankful to them.

Rwyf yn gwerthfawrogi bod y rhaglen frechu bellach yn cael ei chyflwyno'n eang ac rydym yn symud allan o'r cyfyngiadau cyfnod clo ond roedd defnyddio brechlynnau sbâr nid yn unig yn cael effaith gadarnhaol ar les staff ar adeg dyngedfennol, roedd hefyd yn golygu na fyddai brechlynnau gwerthfawr yn cael eu gwastraffu.

I appreciate the vaccine program is now being widely rolled out and we are moving out of lockdown restrictions but the utilisation of spare vaccines not only had a positive impact on the wellbeing of staff at a critical time, it also meant that valuable vaccines would not be wasted.

Mae plismona iechyd cyhoeddus wedi effeithio ar swyddogion yr heddlu a staff. Mae swyddogion wedi cael eu gorfodi i ddefnyddio disgresiwn ar raddfa strategol wrth gerdded llinell denau rhwng barn y cyhoedd a chanllawiau'r llywodraeth.

Public health policing has taken its toll on police officers and staff. Officers have been forced to use discretion on a strategic scale whilst walking a fine line between public opinion and government guidelines.

Mae pryderon cynyddol am les a blinder y gweithlu wrth i'r gwasanaeth barhau i ddarparu busnes fel arfer ochr yn ochr â'r gwaith sy'n gysylltiedig â Covid.

There are growing concerns about workforce wellbeing and fatigue as the service continues to deliver business as usual alongside its Covid related work.

Mae llawer o swyddogion a staff yn dioddef blinder-gwaith ac o gofio bod y mwyafrif helaeth o'r staff wedi bod yn gweithio'n galetach, am gyfnod hwy, a heb gymryd digon o amser i ffwrdd mae angen cefnogi'r effeithiau ar eu hiechyd a'u lles. Amlygodd arolwg yr Uwcharolygydd themâu tebyg, yn enwedig pryderon am yr effaith ar iechyd meddwl swyddogion yr heddlu a staff.

Rwyf yn hynod falch o Heddlu Gogledd Cymru a'i ymrwymiad i wasanaeth cyhoeddus yn yr amgylchiadau anoddaf, ac ar ran ein cymunedau yn parhau i fod yn ddiolchgar i bob un ohonynt.

Mae plismona wedi ymateb yn dactegol i'r her o blismona pandemig. Ond gall effeithiau Covid ar amgylchedd gweithredol plismona, ar y system gyfiawnder a gwasanaethau cyhoeddus eraill yn arbennig, fod yn amhosibl eu lliniaru am gyfnod amhenodol.

Many officers and staff are suffering burnout and given that the large majority of staff has been working harder, for longer, and without taking adequate time off the effects on their health and wellbeing needs to be supported. The Superintendent’s survey highlighted similar themes, particularly concerns about the impact on the mental health of police officers and staff.

I am immensely proud of North Wales Police and their commitment to public service in the most difficult of circumstances and on behalf of our communities remain grateful to every one of them.

Policing has risen tactically to the challenge of policing a pandemic. But the effects of Covid on policing’s operating environment, on the justice system and other public services in particular, may prove impossible to mitigate indefinitely.

Yn Gwir/Yours Sincerely

Arfon Jones
Comisiynydd Heddlu a Throsedd/ Police and Crime Commissioner

Glan y Don, Bae Colwyn LL29 8AW
Ffôn / Tel: **01492 805486**
Ebost / Email: **OPCC@nthwales.pnn.police.uk**
Glan y Don, Colwyn Bay LL29 8AW
Ffacs / Fax: **01492 805489**